19 Awst 2026

Ein cyf/Our ref ATISN 27268

Annwyl

**Y cais**

Diolch ichi am eich cais a ddaeth i law ar 28 Gorffennaf 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

> -Yr atodiadau anfonwyd gyda llythyr Jeremy Miles 6ed Mai 2021 (nodwn yn benodol fod cyfeiriad at Atodiad 2, er enghraifft, felly mae'n rhaid bod o leiaf dau atodiad)
> -Yr holl ohebiaeth ddilynol yn ôl a blaen yn dilyn llythyr Jeremy Miles 6ed Mai 2021.

**Ein hymateb**

Er y cyfeiriad at atodiad 2 yn y llythyr gwreiddiol, mae'r ebost a anfonwyd ar 6 Mai 2021 o swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol at yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd, yr Arglwydd Burnett o Maldon, yn dangos nad oedd unrhyw atodiadau i'r llythyr wedi eu hanfon. Does dim cofnod gyda ni ar ffeil chwaith o atodiad i'r llythyr.

Amgaeaf yr wybodaeth y gofynnwyd amdani mewn perthynas a'r ail bwynt uchod – yr ymateb gan yr Arglwydd Brif Ustus ar y pryd i lythyr Jeremy Miles o 6 Mai 2021, a dderbyniwyd ar 24 Mai 2021.

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN 27268.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane

Wilmslow
Swydd Gaer
Lloegr
SK9 5AF

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir